Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Creigiau**

**Neuadd y Sgowtiaid**
**Castle Close**
**Creigiau**
**Caerdydd**
**CF15 9NJ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

18/06/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cylch Meithrin Creigiau

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Pwyllgor Cylch Meithrin Creigiau |
| Lleoedd cofrestredig | 18 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 16 Ionawr 2024 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn hyderus i fynegi eu barn. Maent yn gwneud ffrindiau'n hawdd, ac yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd. Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt yn fawr ac maent yn cael cyfleoedd addas i ddatblygu eu hannibyniaeth.

Mae'r staff yn broffesiynol ac yn llawn cymhelliant. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach, ac maent yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar waith yn effeithiol. Mae'r staff yn amyneddgar, yn garedig ac yn ofalgar. Maent yn cefnogi dysgu a datblygiad y plant yn dda, gan gynnig amrywiaeth bwrpasol o weithgareddau yn seiliedig ar ddiddordebau ac anghenion datblygiadol y plant.

Mae'r amgylchedd yn lân, yn groesawgar ac yn gyfeillgar i blant. Mae'r amgylchedd wedi'i drefnu'n dda i ysgogi a chefnogi chwarae a dysgu'r plant. Mae'r lleoliad yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau, gan gynnig amrywiaeth a dewis i'r plant.

Mae'r arweinwyr yn llawn cymhelliant ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal plant cyson dda. Maent yn rhoi anogaeth a chymorth buddiol i'r staff. Mae polisïau, asesiadau risg a chofnodion rheoliadol ar waith. Mae'r rhieni yn canmol y lleoliad a'r gofal y mae eu plant yn ei gael.

## Llesiant — Da

Mae'r plant yn cael cyfleoedd cyson dda i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnynt. Gallant ddewis ble i chwarae a beth yr hoffent chwarae ag ef, ac a ydynt am gymryd rhan mewn gweithgaredd ai peidio. Mae'r plant yn mynd at y staff ac yn mynegi eu meddyliau a'u syniadau, gan eu bod yn gwybod bod y staff yn gwrando arnynt ac yn gwerthfawrogi pob ymdrech ganddynt i gyfathrebu. Er enghraifft, gwelsom y staff yn ymateb i'r plant a oedd am chwarae â cheir a rampiau yn yr awyr agored, drwy ddod â'r cyfarpar chwarae allan iddynt.

Mae'r plant yn teimlo'n gyfforddus yn y lleoliad gan eu bod yn gyfarwydd â'r amgylchedd a'r arferion. Mae ganddynt gydberthnasau da â'r staff ac maent yn ddigon bodlon mynd atynt am gysur neu gymorth pan fo angen. Mae'r plant yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd, sy'n eu cefnogi mewn ffordd effeithiol i deimlo'n gartrefol ac yn gyfforddus yn eu hamgylchedd. Er enghraifft, maent yn mwynhau gweithgareddau amser cylch dyddiol fel canu hwiangerddi a chyfrif. Mae'r plant yn sgwrsio â'r staff am eu chwarae ac yn gwneud ymdrechion penodol i fod yn eu cwmni. Er enghraifft, roedd y plant am chwarae rôl gyda'r staff yn y caffi chwarae. Maent yn gwneud ffrindiau gyda'r plant eraill, sy'n eu helpu i deimlo'n hapus ac i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Er enghraifft, gofynnodd un plentyn i blentyn arall ymuno â'i gêm ddychmygol lle roedd yn teithio i'r gofod.

Mae'r plant yn ymddwyn ac yn rhyngweithio'n dda o ystyried eu hoedran a'u cam datblygu. Maent yn chwarae'n hapus ar eu pen eu hunain neu gyda'u ffrindiau wrth iddynt ddysgu i rannu a chydweithio. Er enghraifft, mae'r plant hŷn yn fwy na pharod i rannu adnoddau fel beiciau. Mae'r plant iau yn rhannu adnoddau gyda chefnogaeth. Mae'r plant yn dechrau deall anghenion eraill ac yn ystyried teimladau eu ffrindiau. Clywsom un plentyn yn gofyn i'w ffrind, ‘‘*Are you ok?*” ac yn cynnig tegan iddo chwarae ag ef.

Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a'r gweithgareddau sydd ar gael yn fawr iawn. Maent yn meithrin amrywiaeth eang o sgiliau wrth iddynt archwilio eu hystafell chwarae a'r ardal awyr agored. Gwelsom y plant yn defnyddio eu dychymyg ac yn gwneud synnwyr o'u byd wrth iddynt gymryd archebion bwyd ac esgus paratoi, coginio, a gweini'r bwyd i'w ffrindiau ac aelod o'r staff.

Mae'r plant yn dilyn eu diddordebau eu hunain am gyfnodau estynedig o amser sy'n eu galluogi i atgyfnerthu sgiliau a gwneud penderfyniadau. Maent yn cael cyfleoedd addas i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth ac yn cael cymorth os oes angen. Er enghraifft, gwelsom y plant yn defnyddio'r toiled ac yn golchi eu dwylo'n annibynnol. Fodd bynnag, mae angen meithrin sgiliau annibyniaeth y plant yn ystod amser prydau.

## Gofal a Datblygiad Da

Mae gan y staff ddealltwriaeth drylwyr o sut i gadw'r plant yn ddiogel, ac maent yn rhoi'r polisïau a'r gweithdrefnau ar waith yn effeithiol. Maent yn dangos dealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau diogelu ac o'r camau y mae angen iddynt eu cymryd pe bai ganddynt bryder am blentyn. Mae gan y staff ddealltwriaeth fuddiol o brosesau diogel ar gyfer rheoli alergeddau bwyd a chaiff gwybodaeth am anghenion unigol y plant ei harddangos mewn ffordd gynnil er mwyn gallu cyfeirio ati'n hawdd. Maent yn cadw cofnodion manwl o unrhyw ddigwyddiadau a damweiniau yn y lleoliad. Mae'r rhieni yn llofnodi'r cofnodion i ddangos eu bod wedi cael gwybod. Mae'r staff yn gwerthuso'r cofnodion hyn yn rheolaidd er mwyn chwilio am batrymau a thueddiadau ac yn cymryd camau i ymdrin ag unrhyw gasgliadau. Maent yn cofnodi unrhyw anafiadau sy'n bodoli eisoes pan fydd y rhieni yn rhoi gwybod am ddamweiniau y tu allan i'r lleoliad. Mae'r staff yn hybu iechyd a hylendid yn effeithiol. Maent yn annog y plant i olchi eu dwylo ar ôl defnyddio'r toiled, ar ôl chwarae yn yr awyr agored a chyn bwyta. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru â'r Asiantaeth Safonau Bwyd ac mae'r staff yn sicrhau bod gofynion iechyd yr amgylchedd yn cael eu bodloni i safon uchel. Mae'r staff yn cofnodi tymheredd y lleoliad bob dydd.

Mae'r staff yn amyneddgar, yn ofalgar ac yn garedig wrth ryngweithio â'r plant. Maent yn defnyddio strategaethau effeithiol i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn defnyddio technegau tynnu sylw os bydd y plant yn ei chael hi'n anodd rhannu neu gymryd eu tro, ac yn rhoi esboniad clir pan na fydd eu hymddygiad yn dderbyniol. Mae'r staff hefyd yn modelu sgiliau cymdeithasol da yn effeithiol wrth chwarae ochr yn ochr â'r plant gan ddweud diolch a chanmol y plant yn ystod gweithgareddau. Maent yn ymuno â'r plant i chwarae pan fydd yn briodol gwneud hynny, ac yn siarad â nhw'n rheolaidd er mwyn ehangu eu dysgu a chynnig profiadau cymdeithasol iddynt. Yn ystod amser cinio, gwelsom y staff yn trafod eu cyfnod yn yr ysgol â'r plant.

Mae'r staff yn cefnogi dysgu a datblygiad y plant yn yn effeithiol. Maent yn arsylwi ar chwarae a dysgu'r plant yn rheolaidd er mwyn olrhain eu cynnydd, sy'n eu helpu i gynllunio gweithgareddau i alluogi camau dysgu a datblygu nesaf y plant. Gwelsom fod barn a diddordebau'r plant yn cael eu cofnodi a'u hystyried wrth gynllunio gweithgareddau a datblygiadau newydd. Caiff arsylwadau a chynlluniau eu cofnodi a'u gwerthuso'n ffurfiol. Mae'r defnydd o'r Gymraeg yn y lleoliad yn gyson ac mae'r plant yn gallu deall gorchmynion a chwestiynau syml yn Gymraeg.

## Yr Amgylchedd **Da**

Mae'r amgylchedd yn darparu ardal ddiogel i'r plant. Mae'r staff yn sicrhau bod y drysau allanol a'r giatiau wedi'u cloi. Mae'r arweinwyr yn cadw cofnodlyfr o ymwelwyr er mwyn darparu cofnod cywir o unrhyw unigolion sy'n ymweld â'r lleoliad. Mae'r asesiadau risg ar gyfer pob rhan o'r lleoliad yn nodi'r peryglon posibl ac yn cynnwys y mesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Mae'r staff yn cwblhau asesiadau risg dyddiol pan fyddant yn paratoi'r lleoliad bob dydd. Mae'r arweinwyr yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd ac mae asesiad risg tân ar waith. Mae hyn yn sicrhau bod y staff a'r plant yn gwybod sut i adael yr adeilad yn ddiogel mewn argyfwng. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y boeler nwy a'r system wresogi yn cael eu profi bob blwyddyn, ac mae tystysgrif gyfredol ar gyfer y gwiriad diogelwch trydanol y mae'n ofynnol ei gynnal bob pum mlynedd.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd mewn cyflwr da ac yn cynnig man croesawgar sy'n addas i blant. Mae'r staff yn trefnu'r lleoliad mewn ffordd effeithiol a deniadol i ysgogi chwilfrydedd, dychymyg a datblygiad y plant. Mae'r teganau a'r gweithgareddau ar uchder priodol i'r plant, sy'n eu galluogi i gael gafael ar y pethau yr hoffent chwarae â nhw yn hwylus. Mae'r staff yn ystyried sut y mae'r plant yn defnyddio'r gofod a'r adnoddau yn rheolaidd, gan addasu'r amgylchedd lle y bo angen i ddiwallu eu hanghenion. Pan fydd y plant yn mynd allan i'r awyr agored, mae ardal awyr agored fawr ar gael iddynt sy'n cynnwys ardal gysgodol y gellir chwarae ynddi ym mhob tywydd. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid cewynnau yn lân, yn drefnus, ac yn addas o ran eu nifer, gan sicrhau preifatrwydd ac urddas.

Mae'r adnoddau ar gyfer y plant yn addas i'w hoedran a'u camau datblygu. Mae digon o adnoddau cyson dda ar gael ar gyfer gweithgareddau chwarae rôl, chwarae byd bach, adeiladu a chrefft. Mae'r adnoddau awyr agored, sy'n cynnwys ystafell ddosbarth awyr agored, cegin fwd a hambyrddau tywod yn cynnig cyfleoedd i fod yn greadigol ac i archwilio. Mae'r plant yn cael cyfle hefyd i ddatblygu eu sgiliau echddygol bras ar feiciau a theganau reidio. Fodd bynnag, ar ddiwrnod yr arolygiad, dim ond amrywiaeth gyfyngedig o deganau a chyfarpar awyr agored oedd ar gael i'r plant. Mae'r lleoliad yn cynnwys dodrefn ac adnoddau o ansawdd da i gefnogi annibyniaeth y plant. Er enghraifft, mae yna fyrddau a chadeiriau o faint addas i blant, ac mae'r cotiau a'r bagiau yn cael eu storio ar lefel isel, sy'n hybu annibyniaeth y plant.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r arweinwyr yn frwdfrydig ac yn llawn cymhelliant i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel Mae datganiad o ddiben clir ar waith sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, ac yn rhoi gwybodaeth i'r rhieni am y ffordd y caiff y lleoliad ei redeg. Mae'r yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn ddilys, ac maent yn aelodau o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Mae'r arweinwyr yn adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau'n rheolaidd ac yn sicrhau bod y staff yn eu rhoi ar waith yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod asesiadau risg ar waith ar gyfer pob rhan o'r lleoliad gan gynnwys gweithgareddau ac adnoddau. Mae'r arweinwyr yn wybodus am eu cyfrifoldebau rheoliadol ac yn rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig.

Mae'r arweinwyr yn monitro ansawdd y gwasanaeth ac yn cynllunio ar gyfer gwelliannau yn effeithiol. Maent yn sicrhau y caiff barn a safbwyntiau'r staff, y plant, y rhieni ac asiantaethau allanol eu casglu. Mae'r arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i baratoi adroddiad blynyddol ar ansawdd y gofal sy'n nodi arferion effeithiol a meysydd i'w datblygu. Mae'r adroddiad yn cynnwys adborth cadarnhaol gan y rhieni sy'n dangos lefel uchel o foddhad â'r gwasanaeth a ddarperir.

Mae'r arweinwyr yn dilyn gweithdrefnau effeithiol er mwyn sicrhau bod gwiriadau recriwtio staff yn cael eu cynnal. Mae ffeiliau'r staff yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen i fodloni'r rheoliadau, gan gynnwys geirdaon a datganiadau iechyd. Mae tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith ar gyfer y staff. Mae gan yr arweinwyr dîm gwerthfawr o staff sy'n cydweithio'n dda iawn, gan sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n dda a bod y lleoliad yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae gweithdrefnau sefydlu ar waith ar waith ar gyfer aelodau newydd o staff. Mae'r arweinwyr yn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i hyfforddi'r staff. Maent yn cynnal arfarniadau a sesiynau goruchwylio rheolaidd, gan roi cymorth a chyfle i drafod unrhyw faterion a allai godi.

Mae'r arweinwyr yn gweithio'n effeithiol i feithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni. Mae'r rhieni yn cael adborth llafar bob dydd ar ddiwrnod eu plentyn. Yn ogystal, caiff lluniau o'r plant yn gweithio neu'n chwarae eu rhannu â'r rhieni drwy lwyfan digidol preifat. Dywedodd y rhieni wrthym fod eu plant yn hapus iawn yn y lleoliad a bod y staff yn hawdd mynd atynt. Gwnaethant ddweud wrthym hefyd eu bod yn gwerthfawrogi'r cymorth a'r adborth y maent yn eu cael gan y staff mewn perthynas â datblygiad eu plant.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 25 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau y caiff risgiau diangen i iechyd a diogelwch y plant eu nodi a'u dileu, i'r graddau i'r eithaf. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 29 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod y staff yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd. | Cyflawnwyd |
| 28 | Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod yr holl wiriadau addasrwydd sy'n ofynnol i'r staff a gyflogir wedi cael eu cynnal cyn iddynt gael eu penodi i'r gwasanaeth. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol hefyd sicrhau bod y staff yn iach i weithio'n uniongyrchol gyda phlant drwy ddatganiad iechyd. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Meithrin sgiliau annibyniaeth y plant yn ystod amser prydau bwyd. |
| Safon 23 - Cyfarpar | Darparu amrywiaeth ddigonol o gyfarpar i sicrhau bod cyfleoedd chwarae ar gael i bob plentyn yn yr awyr agored. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 09/08/2024